



# PANEL APÊL CYNNAL

---

## **AELODAETH Y PANEL**

Bydd y Panel yn cynnwys 3 aelod o'r Pwyllgor Rheoli, gan sicrhau nad yw'r aelodau wedi trafod yr achos yn flaenorol.

Anelir i gael trawsdorriad o aelodaeth, – sef swyddog, cynghorydd a phennaeth ysgol.

Bydd y Prif Weithredwr a Chadeirydd yr Is-bwyllgor Personél yn cynrychioli'r 'cyflogwr'.

Rhoddir gwahoddiad i'r unigolyn a chyfaill/cynrychiolydd undeb i bresenoli eu hunain os ydynt yn dymuno.

## **YMLAEN LLAW / AMSERU**

Dylai'r gwrandawriad gymryd lle o fewn 28 diwrnod gwaith o dderbyn rhybudd o fwriad yr unigolyn i apelio.

Cyflwynir tystiolaeth yn ysgrifenedig – i'w rhoi i'r Swyddog Personél 7 diwrnod o flaen y gwrandawriad, a'u dosbarthu ganddo i aelodau'r Panel, yr unigolyn a'r rhai sydd yn cynrychioli'r 'cyflogwr' o leiaf 5 diwrnod cyn y gwrandawriad.

## **TREFN Y GWRANDAWRIAD**

Gwahoddir yr unigolyn neu'r cynrychiolydd i gyflwyno ei (h)achos ym mhresenoldeb y cyflogwr.

Rhoddir cyfle i aelodau'r Panel Apel a'r 'cyflogwr' ei / eu holi.

Rhoddir cyfle i'r 'cyflogwr' i gyflwyno ei achos ym mhresenoldeb yr unigolyn / cynrychiolydd, gan roi cyfle i'w holi gan aelodau y Panel Apel a'r unigolyn / cynrychiolydd

Yn dilyn hyn, rhoddir cyfle i'r unigolyn / cynrychiolydd a'r 'cyflogwr' grynhoi eu cyflwyniadau

Gofynir i'r unigolyn / cynrychiolydd a'r cyflogwr ymneilltuo, fel bo'r Panel Apêl yn ystyried yr achos yn gyfrinachol.

## **PENDERFYNIAD**

Gall y Panel –

- wrthod yr apel
- ganiatau'r apel
- gofyn i'r cyflogwr, mewn ymgynghoriad â'r unigolyn, i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i sicrhau fod dyletswyddau yr unigolyn yn cydfynd â chyflog a disgwyliadau'r swydd.

Bydd Cadeirydd y Panel Apêl yn cyfleu'r penderfyniad yn llafar i'r ddwy ochr, a disgwylir i'r Swyddog Personél gadarnhau'r penderfyniad mewn ysgrifen o fewn 7 diwrnod gwaith.

Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol.